**ELIZABETH YR AIL, TRWY RAS DUW, O DEYRNAS UNEDIG PRYDAIN FAWR A GOGLEDD IWERDDON A'N TEYRNASOEDD A'N TIRIOGAETHAU ERAILL, BRENHINES, PENNAETH Y GYMANWLAD, AMDDIFFYNNYDD Y FFYDD.**

**I BAWB Y DAW'R PRESENOLION HYN ATYNT, CYFARCHION!**

**YN GYMAINT** ag y darfu i'w Fawrhydi y Brenin George y Pumed ar yr unfed dydd ar hugain o Ionawr ym mlwyddyn ein Harglwydd Un Fil naw cant ac ugain ganiatáu Siarter (a elwir wedi hyn yn "Siarter 1920") yn cyfansoddi ac yn sefydlu Coleg ym Mwrdeistref Sirol Abertawe o'r enw Coleg Prifysgol Abertawe:

**AC YN GYMAINT** â bod y Siarter dywededig yn darparu ar gyfer cyfansoddiad a llywodraeth y Coleg dywededig a rheolaeth ei faterion a materion amrywiol eraill, gan gynnwys ymddeddfiad Statudau ar gyfer rheoleiddio pob mater cysylltiedig â llywodraethu a gweinyddu'r Coleg:

**AC YN GYMAINT** ag y darfu i'w Fawrhydi, trwy gyngor Ei Gyfrin-Gyngor a chyda'i gyngor ar yr unfed dydd ar bymtheg o Fawrth, Un Fil naw cant a thri deg tri, ganiatáu newidiadau penodol i'r Siarter dywededig:

**AC YN GYMAINT** ag y darfu i ni ganiatáu yn raslon ar yr ail ddydd ar bymtheg o Fawrth, Un Fil naw cant a phum deg pump newidiadau pellach penodol i'r Siarter dywededig:

**AC YN GYMAINT** ag y darfu i ni, ar yr wythfed dydd ar hugain o Hydref, Un Fil naw cant a phum deg naw, ganiatáu Siarter Atodol (a elwir wedi hyn yn "Siarter Atodol 1959") yn amrywio ac yn helaethu pwerau Coleg Prifysgol Abertawe ac a ddirymodd Siarter 1920 (ac eithrio i'r graddau yr ymgorfforodd Goleg Prifysgol Abertawe a chyflwyno arni olyniaeth barhaol):

**AC YN GYMAINT** ag y mae Siarter Atodol 1959 wedi ei newid ar wahanol adegau gan benderfyniad a gymeradwywyd gan ein Cyfrin-Gyngor; a thrwy gyfryw benderfyniad a wnaed ar y chweched dydd ar hugain o Fehefin, Un Fil naw cant a naw deg chwech, newidiwyd enw a theitl Coleg Prifysgol Abertawe i Brifysgol Cymru Abertawe:

**AC YN GYMAINT** ag y mae Prifysgol Cymru Abertawe wedi penderfynu newid ei henw i Brifysgol Abertawe ac wedi cyflwyno i Ni yn Ein Cyngor Ddeiseb ostyngedig yn deisyf am grant Siarter Atodol:

**YN AWR, GWYBYDDWCH ein bod** Ni ar ôl cymryd y Ddeiseb ddywededig i'n hystyriaeth Frenhinol wedi ewyllysio ac ordeinio, yn rhinwedd Ein Rhagorfraint Frenhinol a'n graslonrwydd neilltuol, ein gwybodaeth sicr a'n hysgogiad ein hun, ac yn ôl y Presenolion hyn ar ein Rhan ni, ac ar ran Ein Hetifeddion a'n Holynwyr, yn ewyllysio ac yn ordeinio fel a ganlyn:

1. Caiff Siarter Atodol 1959 (ac eithrio i'r graddau y parhaodd mewn grym yr ymgorfforiad gan Siarter 1920 Coleg Prifysgol Abertawe a chyflwyno olyniaeth barhaol arni trwy hynny) trwy hyn ei dirymu, ond ni fydd dim yn y dirymu hwn yn

effeithio ar gyfreithlondeb neu ddilysrwydd unrhyw waith, gweithred neu beth a wnaed neu a gyflawnwyd yn gyfreithlon o dan ddarpariaethau Siarter Atodol dywededig 1959.

2. Adwaenir y sefydliad o hyn ymlaen naill ai fel Prifysgol Abertawe neu *Swansea University* a gall ddwyn ac amddiffyn achos llys a dal tir ac eiddo a gall ddwyn Pais Arfau yn y naill enw neu deitl neu'r llall neu'r ddau enw neu deitl a gall ddangos y naill neu'r llall neu'r ddau enw neu deitl ar ei Sêl Gyffredin.

3. Amcanion y Brifysgol fydd hybu dysg a gwybodaeth trwy addysgu ac ymchwil, ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo datblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt a chyfrannu iddynt.

4. Bydd cymhwyster i aelodaeth o'r Brifysgol heb ystyriaeth i oed, tarddiad ethnig neu genedlaethol, hil, crefydd, rhyw, tueddfryd rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, anabledd corfforol neu synhwyraidd, neu gredoau a gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol.

5. Bydd y Brifysgol yn gorff addysgu, ymchwilio ac arholi a bydd ganddi'r pwerau canlynol, yn amodol ar hyn ein Siarter Atodol, y Statudau, Ordeiniadau a Rheoliadau:

(a) Rhagnodi amodau derbyn pobl i'r Brifysgol ac i unrhyw gwrs astudio penodol a ddarperir gan y Brifysgol.

(b) Darparu cynlluniau astudio trwy addysgu a thrwy ymchwil a fydd yn galluogi myfyrwyr i gymhwyso ar gyfer Graddau, Diplomâu, Tystysgrifau a Dyfarniadau eraill Prifysgol Abertawe a phrifysgolion a chyrff eraill.

(c) Rhoddir Graddau, Diplomâu a Thystysgrifau i bersonau a fydd wedi dilyn cwrs astudio a / neu ymchwil a gymeradwywyd gan y Brifysgol ac a fydd wedi pasio'r arholiadau neu'r profion eraill a ragnodwyd gan y Brifysgol ac wedi diwallu unrhyw ofynion eraill a bennir gan y Brifysgol.

(ch) Rhoddir Graddau er Anrhydedd, Cymrodoriaethau er Anrhydedd a Dyfarniadau er Anrhydedd ac Anrhydeddau eraill i bersonau a gymeradwyir gan y Brifysgol.

(d) Am yr hyn a farno'r Brifysgol ei fod yn achos da, amddifadu personau o unrhyw Raddau, Diplomâu, Tystysgrifau neu Ddyfarniadau neu Anrhydeddau eraill a roddwyd iddynt neu a gyflwynwyd iddynt gan y Brifysgol.

(dd) Sefydlu a dyfarnu ymysg eraill Gymrodoriaethau, Ysgoloriaethau, Ysgoloriaethau Ymchwil, Bwrsariaethau a Gwobrau.

(e) Sefydlu'r cyfryw swyddi yn ôl angen y Brifysgol, penodi personau i'r cyfryw swyddi, eu symud o'r cyfryw swyddi a rhagnodi eu hamodau gwasanaeth.

(f) Darparu ar gyfer gwneud sefydliadau eraill neu ganghennau neu adrannau neu aelodau staff ohonynt yn rhai cysylltiol i hyrwyddo amcanion y Brifysgol.

(ff) Cydweithredu trwy unrhyw ddull bynnag â sefydliadau addysg uwch neu â chyrff eraill i hyrwyddo amcanion y Brifysgol.

(g) Llunio a rhoi mewn grym unrhyw gytundeb ar gyfer ymgorffori o fewn y Brifysgol neu gaffael unrhyw sefydliad arall neu ran ohono ac ar gyfer cymryd ei hawliau, eiddo a rhwymedigaethau, ac ar gyfer unrhyw bwrpas arall nad yw'n wrthun i hwn ein Siarter Atodol.

(ng) Hawlio, codi neu dderbyn ffioedd o ran unrhyw un o weithgareddau'r Brifysgol.

(h) Cael cyfraniadau i gronfeydd y Brifysgol a chodi arian mewn modd arall y gwêl y Brifysgol ei fod yn addas.

(i) Gweithredu fel Ymddiriedolwr neu Reolwr unrhyw eiddo, gwaddol, cymynrodd, becwêdd neu rodd a wneir i'r Brifysgol i hyrwyddo amcanion y Brifysgol ac i fuddsoddi unrhyw gronfeydd fel y gwêl y Brifysgol yn addas.

(l) Darparu gwasanaethau ymchwil, ymgynghori, cynghori ac eraill.

(ll) Caffael, dal a gwaredu eiddo o unrhyw fath.

(m) Sefydlu, perchenogi cyfranddaliadau cwmnïau a chymryd rhan yn eu llywodraethu.

(n) Gwneud gweithredodd eraill a phethau eraill a all hyrwyddo amcanion y Brifysgol.

6. Bydd Ymwelydd i'r Brifysgol a benodir gennym Ni, Ein Hetifeddion neu ein Holynwyr yng Nghyngor.

7. Bydd Canghellor i Brifysgol Abertawe a fydd yn brif swyddog y Brifysgol.

8. Bydd dau Ddirprwy Ganghellor i Brifysgol Abertawe, a chaiff un ohonynt ei bennu gan y Cyngor i weithredu'n Gadeirydd y Cyngor.

9. Bydd Trysorydd i Brifysgol Abertawe.

10. Bydd Is-Ganghellor i Brifysgol Abertawe a fydd yn brif weithredwr ac yn brif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol.

11. Bydd Dirprwy Is-Ganghellor neu Ddirprwy Is-Gangellorion i Brifysgol Abertawe.

12. Bydd Cyngor i Brifysgol Abertawe a fydd yn gorff llywodraethu'r Brifysgol

13. Bydd Senedd i Brifysgol Abertawe a fydd, yn amodol ar reolaeth a chymeradwyaeth y Cyngor, yn rheoleiddio ac yn arolygu addysg a disgyblaeth y Brifysgol, a bydd ganddo'r cyfansoddiad, y pwerau a'r dyletswyddau a bennir gan yr Ordeiniadau.

14. Bydd Llys i Brifysgol Abertawe a fydd yn gwasanaethu fel fforwm ar gyfer ymrwymiad y gymuned ehangach gyda'r Brifysgol a bydd ganddo gyfansoddiad, pwerau a dyletswyddau fel y'u pennir gan yr Ordeiniadau.

15. Bydd cyrff eraill, fel Cyfadrannau ac Ysgolion ac adrannau academaidd eraill, yn ôl yr hyn a sefydlir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd a bydd ganddynt y pwerau a'r dyletswyddau a bennir iddynt gan yr Ordeiniadau a'r Rheoliadau.

16. Bydd Undeb Myfyrwyr i Brifysgol Abertawe gyda chyfansoddiad a gymeradwyir gan y Cyngor a bydd y Cyngor, cyhyd ag y bo'n rhesymol yn ymarferol, yn sicrhau bod Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu mewn dull teg a democrataidd a'i fod yn atebol am ei gyllid.

17. Ni bydd Prifysgol Abertawe'n gwneud unrhyw fuddran, rhodd, rhaniad neu fonws i unrhyw un o'i haelodau ac eithrio trwy wobr, bonws neu grant arbennig.

18. Gall y Cyngor, ar ôl ymgynghori â'r Senedd a thrwy Benderfyniad Arbennig, newid hwn, Ein Siarter Atodol, neu ychwanegu ato. Pan gaiff y cyfryw newid neu ychwanegiad ei gymeradwyo gennym Ni, Ein Hetifeddion neu Olynwyr yng Nghyngor bydd ganddo effaith fel y bydd hwn Ein Siarter Atodol o hyn ymlaen yn parhau ac yn gweithredu fel be bai wedi cael caniatâd ac wedi ei wneud fel yr ychwanegwyd ato neu fel y'i newidiwyd.

19. Gall y Cyngor, ar ôl ymgynghori â'r Senedd a thrwy Benderfyniad Arbennig, wneud, newid neu ddirymu Statudau neu ychwanegu atynt i ragnodi materion i gefnogi hwn Ein Siarter Atodol ar yr amod na fydd y cyfryw newidiadau naill ai'n anghydnaws i ddarpariaethau hwn Ein Siarter Atodol neu na fyddant yn cael effaith nes y'u cymeradwyir gan Arglwyddi ein Cyfrin-Gyngor Tra Anrhydeddus.

20. At ddibenion hwn Ein Siarter Atodol golyga Penderfyniad Arbennig benderfyniad a gaiff ei basio mewn un cyfarfod o'r Cyngor a'i gadarnhau mewn cyfarfod dilynol a gynhelir heb fod yn llai na thri mis ar ôl y cyfarfod blaenorol. Bernir bod penderfyniadau wedi eu pasio os cânt eu cefnogi gan fwyafrif o ddim llai na dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio ym mhob cyfarfod.

21. Yn amodol ar Hwn Ein Siarter Atodol a'r Statudau, gall y Cyngor wneud, newid, neu ddirymu Ordeiniadau neu ychwanegu atynt i gyfarwyddo a rheoleiddio'r Brifysgol a'i haelodau.

22. Yn amodol ar hyn Ein Siarter Atodol, y Statudau a'r Ordeiniadau, gall y Cyngor a'r Senedd a'r cyrff a'r pwyllgorau a sefydlwyd ganddynt wneud,

newid neu ddirymu Rheoliadau, neu ychwanegu atynt, i gefnogi ac i orfodi eu priod bwerau a swyddogaethau.

23. Os bydd unrhyw wrthdaro neu anghysondeb rhwng unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Ordeiniad ac unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Reoliad, y ddarpariaeth yn yr Ordeiniad fydd mewn grym.

24. Os bydd anghysondeb rhwng unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Ordeiniad ac unrhyw ddarpariaeth mewn unrhyw Ordeiniad arall, neu rhwng unrhyw Reoliad ac unrhyw Reoliad arall, caiff y mater ei gyfeirio at y Cyngor i'w benderfynu.

25. Daw hwn, Ein Siarter Atodol, i rym ar ddiwrnod cyntaf mis Medi 2007.

Ein Hewyllys a'n Pleser Brenhinol Ni yw bod hwn Ein Siarter Atodol i'w ddehongli bob amser yn haelionus ac ym mhob achos yn y modd mwyaf ffafriol i Brifysgol Abertawe ac i hyrwyddo'i hamcanion.

**YN DYSTIOLAETH** i hyn parasom wneud yn Amlwg Ein Llythyrau hyn.

**TYST** Ni Ein Hunain yn Westminster ar y degfed dydd ar hugain o Awst yn chweched flwyddyn a hanner cant Ein Teyrnasiad.

**TRWY WARANT O DAN LOFNOD Y FRENHINES**

**ALLAN**